# Cenn@d

TACHWEDD 24 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 39


## Taith drwy'r Adfent: adnoddau ar y cyfryngau cymdeithasol i'w rhannu yn rhad ac am ddim

Wrth i ni nesu at gyfnod yr Adfent mae gan Gyngor yr Ysgolion Sul nifer o adnoddau y gellir eu rhannu ar eich tudalennau Facebook fel gofalaethau ac fel unigolion. Bydd hon yn ffordd hwylus o rannu'r newyddion da am obaith a goleuni'r Nadolig dros y we, a hynny mewn cyfnod o'r flwyddyn a all fod yn dywyll a diobaith i lawer.

Yn ystod y mis nesaf, cyhoeddir pum adnod ar ein hamrywiol dudalennau Facebook y gallwch eu rhannu â'ch aelodau a'ch ffrindiau:

- Gair o Weddi – gweddi newydd bob dydd
- Beibl.net – adnod newydd bob dydd
- Emynau Gobaith – carol Gymreig draddodiadol bob dydd
- Cyngor Ysgolion Sul – myfyrdod a gweddi bob wythnos
- Cristogaeth Cymru / Beibl Byw – coeden Jesse

Bydd llawer yn gyfarwydd â'r syniad o goeden Jesse – cyfres o ddarlleniadau ac adnodau sy'n ein harwain yn ysbrydol at y Nadolig. Bob dydd cyhoeddir taflen i deuluoedd, gyda gweithgaredd a llun, a myfyrdod pwrpasol. Dyma enghraifft o'r un cyntaf isod:




Diwrnod 01

DARLLEN:
Eseia 11:1–2: Cangen Fechan
Ond bydd brigyn newydd yn tyfu o foncyff Jesse,
a changen ffrwythlon yn tyfu o'i wreiddiau.
Bydd ysbryd yr ARGLWYDD yn gorffwys arno:
ysbryd doethineb rhyfeddol,
ysbryd strategaeth sicr,
ysbryd defosiwn a pharch at yr ARGLWYDD.

GWRANDEWCH:
Amser maith yn ôl, gorfodwyd pobl yr Arglwydd i adael eu cymdogaeth ac anfonwyd hwy i fyw yn rhywle arall. Roedd bywyd yn galed ac yr oedd eu cymdogion newydd yn gas. Nid oedd pobl yr Arglwydd yn garedig chwaith. Roedd fel nad oedd unrhyw un yn malio am neb ond nhw eu hunain. Roedd rhai plant bach heb rieni, a doedd neb yn gofalu amdanynt. Roedd rhai pobl oedrannus heb deulu a doedd 'na neb yn galw i'w gweld.

Roedd Duw wedi cael digon ar yr ymddygiad yma. Mae'n gofalu am bobl ac mae eisiau iddynt hwythau ofalu am ei gilydd! Felly dywedodd wrth ei bobl ei fod am ddod â hyn i ben, yn union fel petaech yn torri coeden anferth i lawr. Cyn gynted ag y mae'r goeden yna wedi ei thorri, dyna'r diwedd. Mae'n stopio tyfu.

Ond addawodd Duw: bydd cangen fechan yn tyfu o fonyn marw'r goeden. Byddai blaguryn yn dechrau tyfu. Ni fyddai pethau'n farw wedyn.




Iesu ydi'r gangen fechan yna Mae'n dod o fonyn coeden ei hen gyndad, Jesse. Yn ystod gweddill yr Adfent rydym am glywed mwy o straeon am bobl yn hanes teulu'r Iesu a'r modd y gwnaethant helpu Duw i ddod â bywyd newydd i'w bobl.

YSTYRIWCH:
Ydych chi erioed wedi gweld blaguryn newydd yn tyfu o hen goeden?
Sut mae eich calon yn teimlo pan ydych yn gweld planhigion newydd yn tyfu yn y gwanwyn?

GWEDDÏWCH:
Arglwydd, rwyt yn rhoi gobaith i ni. Diolch am roi Iesu i ni fel tyfiant newydd yn y gwanwyn. Roi di gymorth i roi sylw iddo yn ystod yr Adfent yma? Amen.

Digon o ddewis felly – y cyfan yn rhad ac am ddim! Gobeithio y medrwn ni i gyd fanteisio ar yr adnoddau hyn dros gyfnod yr Adfent, gan geisio llenwi Facebook a Twitter efo gobaith a goleuni geni Iesu yn Waredwr y byd.


Porthi'r Pum Mil
Tudalen 2

Prinder a llawnder erbyn Dolig 21
Tudalen 4

Ffydd a Diwylliant
Iaith a pherthyn
Tudalen 5